CYNGOR DOSBARTH GWLEDIG PENLLYN.

MINISTRY OF HEALTH LIBRARY

PENLLYN R.D.C

ADRODDIAD

Y

SWYDDOG MEDDYGOL

ar

CYFLWR IECHYD Y DOSBARTH

am

1958.

Mr. Cadeirydd a Boneddigion,

Cyflwynaf i chwi adroddiad am y flwyddyn yn diweddu 31ain.Rhagfyr 1958:-

Amcangyfrif y Cofrestrydd Cyffredinol o'r boblogaeth am y flwyddyn oedd 2720, (30 yn llai na'r flwyddyn flaenorol).

Nifer y genedigaethau byw-anedig oedd 43 (1 yn llai nag yn 1957) ac yr oedd 2 farwolaeth o dan blwydd oed.

Nifer y marwolaethau oedd 28 (yr un nifer yn 1957)

Nifer o farwolaethau oddiwrth canser oedd 3 (7 yn 1957).

Nid oedd yr un marwolaeth ond yr oedd 3 achos newydd o Ddarfodedigaeth yr ysgyfaint.

Yr oedd nifer o achosion o'r frech goch yn ystod y flwyddyn.

Dymunaf ddiolch i Mr. John Griffiths yr Arolygydd Iechyd a'r Swyddogion eraill am eu cyd-weithrediad yn ystod y flwyddyn.

Yr eiddoch,

E. Richards.

ADRODDIAD BLYNYDDOL SWYDDOG MEDDYGOL Y CYNGOR AM 1958.

CYFFREDINOL.

Arwynebedd y Dosbarth:	98,469 o aceri.
Gwerth Trethiannol:	£12621
Poblogaeth (Ffigyrau'r Cofrestrydd Cyffredinol):	2720
Nifer y tai annedd:	906
Cyfanswm treth geiniog yn y bunt.	£45. 14. 4

GENEDIGAETHAU.

Byw a marwanedig	45
Bywanedig:	43
Marwanedig:	2
Genedigaethau yn ol mil o boblogaeth:	15.85.

Bywanedig:	Gwryw	Benyw	Cyfanswm.
Cyfreithlon:	25	18	43
Anghyfreithlon:	1	-	1

MARWOLAETHAU.

		Gwryw	Benyw	
Cyfanswm:	28	14	14	
Marwolaethau yn ol mil o'r boblogaeth				10.29
Y ffigur am 1957				10.18

Marwolaethau plant dan flwydd oed:-

	Gwryw	Benyw	Cyfanswm.
Cyfreithlon:	1	1	2
Anghyfreithlon:	-	-	-

Marwolaethau plant yn ol mil o enedigaethau:	44.44
(Y ffigyrau am 1957)	0
Marwolaethau plant cyfreithlon yn ol mil o enedigaethau:	44.44

Marwolaethau plant dan bedair wythnos oed:-

	Gwryw	Benyw	Cyfanswm.
Cyfreithlon:	1	1	2
Anghyfreithlon	-	-	-

Marwolaethau mamau (Ynglyn a beichiogi a geni plant)	DIM
Marwolaethau o'r canser:	3
(Yn ol mil o'r boblogaeth)	1.80.
Marwolaethau oddiwrth Ddarfodedigaeth (Yn ol mil o'r boblogaeth).	DIM

GWASANAETH IECHYD.

1. SWYDDOGION IECHYD.
   Un Swyddog Meddygol.
   Un Arolygydd Iechyd.

2. CYFLEUSTERAU LABORDY.
   Dwr: Dadansoddiad cemegol gan y Dadansoddwr Cyhoeddus yng Nghaer.
   Arolygu bacteriologaidd gan Labordy Iechyd y Cyhoedd, Conwy.

   Llaeth: Profion am lendid, ansawdd cadw a darfodedigaeth gan Labordy Iechyd y Cyhoedd, Conwy. (Ni chodir unrhyw dal ar yr Awdurdod Lleol am y profion hyn ar laeth).

3. CYFLEUSTERAU AMBIWLANS.
   Nid oes gorsaf ambiwlans yn y cylch.

4. CLINIGAU LLESIANT PLANT.
   Cynhelir clinig ddwywaith y mis yn Yr Hafan, Bala.

5. CLINIGAU DARPAE GENI.
   Cynhelir clinig o'r fath unwaith yn y mis yn yr Aelwyd yng Nghorwen.

6. CLINIG ORTHOPAEDIG.
   Fe'i cynhelir ddwywaith yn y mis yn Yr Hafan, Bala.

7. CLINIG DARFODEDIGAETH.
   Pob pythefnos yn Plasyndre, Bala.

8. ATALHEINTIO DIPTHERIA:
   Trefnir ar gyfer atalheintio gan Swyddog Meddygol y Sir. Ceir atalheintio ar fabanod a phlant yn yr Ysgolion Gynradd yn gyson a mynych. Rhoddir derbyniad da i'r trefniant hwn gan rieni yn y Dosbarthiadau Gwledig.

9. YSBYTAI.

Nid oes yr un ysbyty o fewn tiriogaeth y Cyngor Dosbarth.

10. AFIECHYDON HEINTUS.

Cyfanswm yr Afiechydon Heintus (heblaw Darfodedigaeth) a wnaed yn hysbys yn ystod y flwyddyn: 26

Y Dwymyn Goch	-	0
Twymyn y Perfedd	-	0
Y Pas	-	0
Y Frech Goch	-	26
Parlys llym	-	0

DARFODEDIGAETH.			Achosion Newydd.	
		Gwryw.	Benyw	Cyfanswm
Ysgyfeiniol	-	1	1	2
Anysgyfeiniol	-	1	-	1
MARWOLAETHAU O ACHOS DARFODEDIGAETH.				
Ysgyfeiniol	-	0	0	0
Anysgyfeiniol	-	0	0	0

ACHOSION MARWOLAETHAU.
1958.

		Gwryw.	Benyw
Darfodedigaeth yr Ysgyfaint	-	0	0
Parlys llym	-	0	0
Canser Ystumog	-	2	0
Canser yr Ysgyfaint	-	0	0
Canser y Fron	-	0	0
" (Safleoedd eraill)	-	1	2
Anafau llestriog cyfundrefn y nerfau	-	2	5
Afiechyd rhydweliau'r galon	-	2	0
Gorbwys gyda chlefyd y galon	-	0	0
Clefydau eraill y galon	-	5	4
Clefydau cychredol eraill	-	0	0
Anwydwst	-	0	0
Llid yr ysgyfaint	-	0	0
Bronceitus	-	0	0
Clefydau eraill y gyfundrefn anadlu	-	0	0
Casgliad ar yr ystumog a'r perfeddyn bach.	-	0	0
Llid yr ystumog, y coluddion a'r dolur rhydd	-	0	1
Llid yr elwlod	-	0	0
Gordyfiant y chwaren wrth enau'r bledren	-	0	0
Afiechydon eraill	-	1	1
Damweiniau gan foduron	-	1	0
Pob damwain arall	-	0	0
Camffurfiadau Genedigol	-	0	1
		14	14

DEDDF CYMORTH GWLADOL 1948.

Ni bu yr un achos o dan Adran 47 o'r Ddeddf hon yn ystod y flwyddyn.

GLANWEITHDRA BWYD.

Ni fu yr un erlyniad o dan y pennawd hwn.

Digitized by the Internet Archive
in 2016 with funding from
Wellcome Library

https://archive.org/details/b2887125x

ADRODDIAD BLYNYDDOL YR AROLYGYDD IECHYD - 1958

1. CARTHFFOSIAETH. Gwnaed cynnydd sylweddol yng nghynllun carthffosiaeth Llanuwchllyn yn ystod y flwyddyn, a gobeithir y bydd y gwaith o gysylltu adeiladau i'r garthffos yn dechrau yn fuan yn y flwyddyn newydd.

2. CYFLENWAD DŴR

Samplau o weithfeydd dŵr y Cyngor	-	5
Samplau eraill	-	67

Datguddia'r samplau hyn fod ansawdd dŵr Rhosygwalia yn anfoddhaol iawn, ond mae gobaith y bydd y brif bibell o Langywair yn cael ei chario ymlaen yma cyn hir.

Amheus yw ansawdd dŵr Llanfor, ac ni ddaeth dŵr y Sarnau i fyny â'r gofynion yn hollol. Yma eto y mae sôn am gysylltu â chyflenwad dŵr llyn Arenig. Ar y llaw arall y mae cyflenwad dŵr Llandderfel a Llanuwchllyn yn foddhaol iawn.

Y mae amryw ffermydd yn cymeryd mantais ar y Deddfau Amaeth i baratoi cyflenwad dŵr preifat mewn pibellau. Gofynnir am gymeradwyaeth y Cyngor cyn rhoi cymorthdâl, a rhaid i ddwy sampl allan o dair fod yn foddhaol cyn y sicrheir hynny.

3. YSBWRIEL. Cafwyd peth trafferth gydag ysbwriel mewn afonydd, yn arbennig yn Llandderfel.

4. CARAFANNAU Helaethwyd safle Tytandderwen o chwech i bump ar hugain yn ystod y flwyddyn. Yr unig safle arall o bwys yw safle Glanllyn.

5. FFATRIOEDD Dilewyd Chwarel Arenig oddiar y llyfr cofrestru pan drosglwyddwyd hi i adran y mwyngloddiau. Darparwyd ceudy ar gyfer y gweithwyr ar Gynllun Carthffos, Llanuwchllyn.

6. DIFA PLA. Dechreuodd y Swyddog Pla ar ei waith ar yr 28ain o Orffennaf ac erbyn diwedd y flwyddyn yr oedd wedi archwilio 283 o ffermydd a 83 o adeiladau eraill. Rhoddwyd triniaeth lle yr oedd angen, neu gyfarwyddwyd sut i wneud y gwaith.

7. TAI. Cymeradwywyd pedwar o gynlluniau i wella ffermdai dan y Ddeddf Ffermio Mynyddig ac un cais am gymorth-dâl dan y Ddeddf Tai 1949. Codwyd un tŷ newydd yn ystod y flwyddyn.

8. Y DDEDDF RHENT. Ystyriwyd tri chais am Dystysgrif Cywair Drwg. Penderfynwyd cymeradwyo dau gais yn rhannol a'r llall yn gyfangwbl. Ymgymerodd y perchen i wneud y gwaith angenrheidiol yn y ddau achos cyntaf, a rhoddwyd tystysgrif yn yr achos arall.

9. BWYD ANADDAS. Ildiwyd chwe phwys o gig moch yn ystod y flwyddyn oherwydd ei fod yn anaddas i'w fwyta.

10. LLAETH. Trwyddedwyd un masnachwr llaeth yn ystod y flwyddyn. Y mae'r gweddill yn cynhyrchu ac yn gwerthu eu llaeth eu hunain, neu yn masnachu o adeilad y tu allan i'r dosbarth.

Samplau bacteriolegol	4
Samplau bywydegol	4

Profodd pob sampl yn foddhaol.

11. HUFEN IA. Cofrestrwyd un adeilad yn ychwanegol i'r pwrpas o werthu hufen ia parod.

12. Y RHEOLAU BWYD. Y mae diffyg cyflenwad dŵr priodol a charthffosiaeth yn rhwystro amryw o adeiladau i ddod i fyny â'r safon, yn arbennig yn ardal Cefnddwysarn. Ni erlynwyd neb yn ystod y flwyddyn am beidio a chydymffurfio â'r rheolau.

13. TŶ LLÂDD. Nid oes tŷ lladd yn y dosbarth. Derbynnir cig o'r Bala ac o Wrecsam.

NIFER A NATUR YR YMWELIADAU.

(a) Y DEDDFAU IECHYD.

1.	Carthffosiaeth	207
2.	Cyflenwad dŵr	85
3.	Ysbwriel	9
4.	Casbethau.	58
5.	Carafannau.	14
6.	Ffatrioedd	3
7.	Siopau.	17
8.	Difa Pla.	9

(b) Y DEDDFAU TAI.

1.	Cyffredinol	127
2.	Y Ddeddf Rhent.	6

(c) Y DEDDFAU BWYD.

1.	Bwyd anaddas	1
2.	Llaeth a Llaethdai.	20
3.	Paratoi, cadw a gwerthu bwyd	17

(ch) AMRYWIAETHOL.

1.	Amrywiaethol.	6

RHYBUDDION

	ANFONWYD	CYDYMFFURFIWYD
Rhybuddion Rhagarweiniol	7	4
Rhybuddion Ffurfiol.	7	4

WELSH BOARD OF HEALTH.
RECEIVED
16 FEB 1960
A.